

Ysgol Gynradd Pen-y-gawsi

Mae'r nodyn yma'n cynnwys crynodeb lefel uchel o'r Datganiad Cynllunio ar gyfer ailddatblygiad Ysgol Gynradd Pen-y-gawsi.

Trosolwg

Mae'r cais yn ceisio caniatâd cynllunio llawn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT) ar gyfer ailddatblygu safle Ysgol Gynradd Pen-y-gawsi i ddatblygu ysgol gynradd newydd.

I grynhoi, mae'r cais cynllunio yn ceisio caniatâd ar gyfer y gwaith arfaethedig canlynol:

- Dymchwel adeiladau presennol yr ysgol;
- Darparu ysgol sy'n gweithredu'n adeilad carbon sero-net, gan gynnwys darpariaeth feithrin a chynradd;
- 1 prif adeilad yr ysgol – dros ddau lawr, i gynnwys ystafelloedd dosbarth, manau canolog, manau gweinyddu, prif neuadd a chegin;
- Mannau a chyfleusterau awyr agored i gynnwys manau wedi'u tirweddu, manau chwarae caled a meddal, man amffitheatr; llwybr cadw'n heini (*trim trail*) a pherllan;
- 1 Ardal Gemau Aml-ddefnydd, sy'n cynnwys 2 gwrth;
- 1 cae pêl-droed â gwair;
- 1 maes parcio â lle i 26 o leoedd parcio a 2 le parcio i'r anabl, gyda 10% yn ddarpariaeth gwefru cerbydau trydan;
- 22 stondin beiciau Sheffield dan do; a
- Cyfleusterau casglu gwastraff.

Mae disgwyl y byddai'r datblygiad, sy'n amodol ar ganiatâd cynllunio llwyddiannus, yn cael ei gyflawni er mwyn bodloni'r targed o ran agor ym mis Medi, 2023.

Angen am ddatblygiad

Mae'r ysgol bresennol mewn ardal ble mae llawer o dai yn cael eu hadeiladu mewn cyfnod byr ac mae angen buddsoddiad arni i fod yn gwbl hygyrch a chyrraedd safon Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Trwy ddarparu adeilad ysgol newydd a chyfleusterau ategol, byddai'r datblygiad arfaethedig yn darparu lle i 355 o ddisgyblion 3-11 oed (310 o ddisgyblion, a dosbarth meithrin â 45 o leoedd).

Cyd-destun y Safle

Mae safle'r cais am y datblygiad arfaethedig yn cynnwys tir Ysgol Gynradd Pen-y-gawsi, Llantrisant, Pont-y-clun, CF72 8PZ.

Dydy'r safle ddim yn destun unrhyw ddynodiadau statudol sylweddol mewn perthynas â'r amgylchedd, tirwedd hanesyddol, dynodiadau tirwedd neu ecoleg, a dydy'r rhain ddim yn berthnasol ger y safle chwaith.

Mae'r safle mewn ardal datblygiad risg uchel o ran glo. Yn ôl asesiadau safle, argymhellir archwiliadau tir pellach i gael gwybod a oes gwagleoedd/tir wedi'i drin o dan y safle. Mae hyn wedi'i gynnwys yng nghwmpas yr ymchwiliadau tir parhaus ar y safle.

Mae'r rhan fwyaf o safle y cais wedi'i lleoli ym Mharth Llifogydd 1, sef risg isel. Serch hynny, mae'r gornel yn y gogledd-orllewin wedi'i lleoli ym Mharthau Llifogydd 2 a 3 Dŵr Wyneb a

Chyrsiau Dŵr Bach. Byddai'r posibilrwydd ar gyfer y risg llifogydd yma yn cael ei reoli trwy gynigion dylunio a thrwy ymgynghori â RhCT, ymgynghorai technegol a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru. Ystyrir bod gan y safle, ar y cyfan, sensitifrwydd amgylcheddol isel a'i fod yn addas i'w ddatblygu.

Y broses cyn-ymgeisio

O'r cychwyn cyntaf, mae dull cydweithredol wedi cael ei fabwysiadu ar gyfer y broses cyn-ymgeisio, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a'r gymuned leol. Ymgynghorwyd ag adran Gynllunio RhCT ac ymgynghorai technegol, gan gynnwys Priffyrdd a'r swyddog Systemau Draenio Cynaliadwy, trwy gydol y prosesau datblygu dyluniad a pharatoi'r cais cynllunio.

Asesiad Cynllunio

Mae'r Datganiad Cynllunio yn cynnwys manylion llawn yr asesiad cynllunio yn erbyn ystyriaethau polisi allweddol o ddefnydd y datblygiad arfaethedig; dyluniad; cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd; trafndiaeth a mynediad; amwynder preswyl; sŵn; bioamrywiaeth a gwarchod natur; tirwedd a choed; llifogydd; amodau'r tir; cyfleustodau a gwastraff.

Ystyrir bod y cynigion yn unol â pholisi lleol a chenedlaethol (y Cynllun Datblygu Lleol, Cymru'r Dyfodol, Polisi Cynllunio Cymru). Ar y cyfan, byddai'r datblygiad arfaethedig yn gweithredu'n gyfleuster carbon sero-net newydd ar safle presennol yr ysgol gan ddarparu nifer o fuddion cadarnhaol fel sydd wedi'u nodi yn yr asesiad cynllunio. O ganlyniad i hyn, dylai caniatâd cynllunio gael ei roi.